



Royal College  
of Physicians

National Respiratory Audit  
Programme (NRAP)



**Archwiliad  
gofal  
sylfaenol**  
Gwybodaeth i  
blant 8 oed  
a hŷn

## Beth ydy'r archwiliad asthma?

Mae meddygfa dy feddyg di'n cymryd rhan mewn archwiliad asthma. Mae archwiliad yn golygu edrych ar rywbeth i weld pa mor dda mae'n gweithio. Mae'r archwiliad yma'n edrych ar sut mae dy feddygon a dy nyrsys di'n gofalu amdana ti, ac yn trin dy asthma. Nod yr archwiliad ydy gwella gofal asthma i bawb drwy weld beth sydd angen ei wella.

## Pa wybodaeth fydd yn cael ei chasglu?

Bydd gwybodaeth yn cael ei chasglu am dy ddiagnosis asthma a dy driniaeth di. Bydd yr wybodaeth yma'n dod o gofnodion electronig am gleifion mewn meddygfeydd yng Nghymru. Bydd dy fanylion personol di'n aros yn breifat bob amser. Bydd yr archwiliad yn edrych ar:

- > pa brofion wnaeth y meddyg/nyrs i gael gwybod bod gen ti asthma
- > pa feddyginiaethau wyt ti'n eu defnyddio (anadlyddion glas a brown, er enghraifft)
- > sut mae'r meddygon a'r nyrsys yn gofalu amdanat ti.

## Pam nad ydy'r meddygon wedi gofyn am fy nghaniatâd i?

Fydd yr archwiliad ddim yn casglu unrhyw wybodaeth sy'n gallu dangos i ni pwy wyt ti. Fyddwn ni ddim yn casglu enwau, dyddiadau pen-blwydd na chyfeiriadau. Felly does dim angen i ni ofyn am ganiatâd gan gleifion, rhieni neu warcheidwaid.

## Beth fydd yn digwydd i fy ngwybodaeth i?

Bydd meddygfeydd yn cael adroddiadau er mwyn gwella'r gofal rwyd ti'n ei gael. Mae adroddiadau hefyd yn helpu i d dangos beth mae angen ei wella ar draws Cymru. Mae'n bosibl y bydd y data'n cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil; bydd dy fanylion personol di'n cael eu gwarchod bob amser.

## Oes gen ti unrhyw gwestiynau?

Fe allai di ofyn i riant neu warcheidwad anfon e-bost i [NRAPinbox@rcp.ac.uk](mailto:NRAPinbox@rcp.ac.uk), neu ffonio 020 3075 1526.

Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan NRAP hefyd yn: [www.rcp.ac.uk/projects/primary-care-workstream](http://www.rcp.ac.uk/projects/primary-care-workstream)

Yn gweithio gyda:



Ariennir yn Rhannol gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Part Funded by  
**Welsh Government**

Comisiynwyd gan:



Healthcare Quality  
Improvement Partnership